

Ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – ymateb y Comisiwn Etholiadol

Tachwedd 2023

Rhagarweiniad

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb trwy'r canlynol:

- galluogi cyflawni etholiadau a refferenda rhydd a theg, canolbwyntio ar anghenion etholwyr, a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid i sicrhau bod pob pleidlais yn parhau i fod yn ddiogel ac yn hygyrch.
- rheoleiddio cyllid gwleidyddol - cymryd camau rhagweithiol i gynyddu tryloywder, sicrhau cydymffurfiaeth, a mynd ar ôl achosion o dorri rheolau
- defnyddio ein harbenigedd i wneud newidiadau i'n democratiaeth ac eirioli drostynt, gan geisio gwella tegwch, tryloywder ac effeithiolrwydd

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol yn 2000 ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd Cymru, Senedd yr Alban, a Senedd y DU.

Trosolwg o'r ymateb

Mae'r ymateb hwn yn nodi ein barn ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Rydym wedi ymateb i'r darpariaethau sy'n uniongyrchol berthnasol i'n gwaith – mae rhai agweddau nad ydynt yn dod o fewn ein cylch gorchwyl, a lle mae hyn yn wir, nid ydym wedi gwneud sylwadau.

Os caiff y Bil ei basio i'r gyfraith, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gweinyddwyr etholiadol, ymgyrchwyr a phleidleiswyr i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud ag etholiadau yn deall ac yn barod ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau i weinyddwyr etholiadol ac yn darparu cymorth i ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall unrhyw newidiadau, o'r Bil hwn ac o ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd ehangach.

Cefndir i'r Bil a meysydd allweddol

Mae [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio](#), a gyhoeddwyd yn 2022, yn cynnig nifer o newidiadau yr ydym wedi galw amdanynt yn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru, archwilio opsiynau ar gyfer moderneiddio prosesau cofrestru etholiadol trwy gofrestru awtomatig, a chymryd camau i gydgrynhoi a symleiddio cyfraith etholiadol Cymru.

Gwnaeth y Papur Gwyn hefyd ystyried yr heriau y gallai rheolau gwahanol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig yng Nghymru eu cyflwyno yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022 a fydd yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, ond nid i etholiadau Senedd Cymru nac i etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyn yn nodi sefyllfa Llywodraeth Cymru, sef y byddai, mewn ardaloedd lle mae polisiâu'n alinio, yn ceisio cynnal cymaint o gysondeb â phosibl yn y rheolau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig.

Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn garreg filltir sylweddol wrth gyflawni rhai o'r newidiadau hyn. Bydd yn symud ymlaen darpariaethau i beilota cofrestrriad awtomatig etholwr ac yn sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer Cymru, a fydd yn cyflawni'r swyddogaeth sy'n cael eu harfer yn bresennol gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Bydd yn alinio'r rheolau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig mewn sawl maes pwysig, gan gynnwys cyllid ymgyrchu a sut y gellir cefnogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol. Mae'r rhain yn newidiadau positif, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol i'w gweithredu'n effeithiol.

Cydgrynhoi cyfraith etholiadol

Bydd y Bil hwn, ochr yn ochr â'r ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth ar gyfer diwygio'r Senedd ac unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cynyddu'n sylweddol corff cyfraith etholiadol ddatganoledig yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei nod, fel y nodir yn y Papur Gwyn, i foderneiddio cyfraith etholiadol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai'r cam cyntaf yn y broses hon fydd disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 gyda Gorchymyn Ymddygiad mwy modern a hygyrch, ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith hwn. Dylai ffocws Llywodraeth Cymru wedyn droi at gyfnerthu ehangach y gyfraith etholiadol ddatganoledig cyn etholiad 2030, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Papur Gwyn, Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac argymhellion comisiynau cyfraith y DU y'u cefnogr yn eang gan y gymuned etholiadol.

Gweithredu'r diwygiadau

Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gweinyddwyr etholiadol yn cael y gefnogaeth a'r adnoddau priodol i gyflawni'r diwygiadau hyn. Mae gweithredu'r Bil hwn yn debygol o redeg ochr yn ochr â deddfwriaeth diwygio'r Senedd a gwaith parhaus i gyflawni darpariaethau'r Ddeddf Etholiadau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl, ac mae llawer o weinyddwyr yng Nghymru wedi mynegi pryderon am eu gallu i gyflawni'r newidiadau aml-haenog hyn o fewn amgylchedd sydd eisoes yn gymhleth. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu rhoi i'r newidiadau hyn, a bod cynllunio a chyfathrebu effeithiol gyda'r gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y broses, drwy fforymau fel Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru ac

unrhyw Fwrdd Rheoli Etholiadol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweinyddwyr etholiadol trwy ddarparu canllawiau a chymorth.

Dylai'r holl ddeddfwriaeth fod yn ei lle cyn gynted â phosibl - o leiaf chwe mis cyn y mae'n ofynnol i ymgyrchwyr neu weinyddwyr etholiadol gydymffurfio â hi neu ei rhoi ar waith. Mae hon yn egwyddor sefydledig o weinyddu etholiadol effeithiol a gefnogir yn eang gan y gymuned etholiadol. Bydd sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth yn glir cyn gynted â phosibl yn caniatáu digon o amser i ni baratoi'r canllawiau a'r codau ymarfer gofynnol, ac i'r gymuned etholiadol gynllunio a pharatoi ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno.

Rydym wedi nodi rhai sylwadau penodol isod ar gymalau perthnasol y Bil.

Rhan 1: Gweinyddiaeth etholiadol a chofrestru

Pennod 1: Cydlynu gweinyddiaeth etholiadol

Bwrdd Rheoli Etholiadol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Mae Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) wedi chwarae rôl bwysig ers 2017 wrth ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd i gydlynu gweithgarwch etholiadol Mae wedi darparu plattform ar gyfer trafodaeth ac wedi helpu i sicrhau cysondeb wrth gynnal etholiadau. Mae wedi gallu sefydlu a gweithredu cynlluniau fel y rhaglen mentora Swyddogion Canlyniadau a'r Eirfa o Dermau Etholiadol Dwyieithog.

Rydym wedi galw o'r blaen i'r BCEC gael ei osod ar sylfaen statudol a'i fod yn cael adnoddau priodol er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol arfaethedig yn gallu chwarae rhan gryfach wrth ddod â gweinyddwyr etholiadol at ei gilydd a sicrhau cysondeb yn narpariaeth digwyddiadau etholiadau Cymru gyfan.

Rydym wedi darparu rhai sylwadau isod ar elfennau penodol o'r darpariaethau.

Annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Fel mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei sefydlu fel rhan o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r Bil yn mewnosod adrannau newydd 20A i 20I i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac ati. Deddf 2013 ("Deddf 2013"), yn rhoi'r swyddogaeth gyffredinol o gydlynu gweinyddiaeth etholiadau a refferenda Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae adran newydd 20E yn nodi bod yn rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, a bod yn rhaid i swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan adrannau 20A i 20D ond cael eu harfer gan y Bwrdd hwn.

Er ein bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r dull hwn, bydd yn hollbwysig sicrhau bod y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn parhau i fod yn weithredol annibynnol o Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i sicrhau hyder parhaus yn y broses ddemocrataidd.

Bydd nifer o'r adrannau newydd a fewnosodwyd i Ddeddf 2013 yn helpu i sicrhau'r annibyniaeth hon, yn enwedig adrannau newydd 20E (swyddogaethau a ddirprwywyd i'r

Bwrdd Rheoli Etholiadol) ac Adran 20F (aelodaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol). Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau mewn perthynas â sut y gall rhanddeiliaid a'r cyhoedd ganfod lefel annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol o dan y model hwn, gan gynnwys y ffaith y bydd yn cael ei sefydlu fel rhan o gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru achub ar bob cyfle mewn deddfwriaeth, canllawiau ac unrhyw gyfathrebiadau allanol ynghylch Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ddangos yn glir sut y bydd annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei ddiogelu. Gallai hyn gynnwys ystyried a ddylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn atebol yn ffurfiol i un o bwyllgorau'r Senedd, megis Pwyllgor y Llywydd.

Yn gysylltiedig ag ystyriaethau o amgylch annibyniaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol, mae anghysondeb posibl yn nhrafft y Bil y mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ei archwilio ymhellach gyda Llywodraeth Cymru. Byddai adran newydd 20E(4) yn galluogi'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i arfer y pwerau 'ffafriol a deilliadol' a nodir yn Adran 12 o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, mae'r geiriad ar ddiwedd adran newydd 20E(4) yn nodi'n glir y gall Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd arfer y pwerau ffafriol a deilliadol hyn mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Corff Rheoli Etholiadol. Gan fod adran newydd 20E(2) yn nodi'n glir mai dim ond y swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol all gael eu harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol ei hun, nid yw'n glir ar unwaith sut na pham y byddai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau 'ffafriol a deilliadol' hyn mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

Gorgyffwrdd gyda swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol

Mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Bil yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru y bydd rôl y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ategu gwaith y Comisiwn Etholiadol ac na fydd yn gorgyffwrdd ag unrhyw un o'n cyfrifoldebau presennol. Mae hon yn egwyddor bwysig. Mae ein swyddogaethau statudol presennol (a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000) yn cynnwys darparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, cyngor i Weinidogion Cymru a'r Senedd, a gwybodaeth i bleidleiswyr a chodi ymwybyddiaeth. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ei hun, yn y camau cynllunio ac unwaith y bydd wedi ei sefydlu, i sicrhau nad yw eu gwaith yn gorgyffwrdd â'n gwaith ni a bod rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a grwpiau a sefydliadau eraill yn cael eu nodi'n glir.

Aelodaeth

Mae adran newydd 20F o Ddeddf 2013, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, yn ymwneud ag aelodaeth y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Mae'n nodi y dylai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gynnwys:

- Cadeirydd, y mae'n rhaid iddynt fod yn aelod o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac yn gynt yn swyddog etholiadau.
- Un aelod arall o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- O leiaf pedwar aelod sydd naill ai'n swyddogion etholiadau presennol neu flaenorol, gydag un o'r rhain i wasanaethu fel dirprwy gadeirydd.

Rydym wedi dweud yn flaenorol y bydd angen i gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol gael profiad sylweddol o weinyddiaeth etholiadol, ar lefel uwch, i sicrhau hygyrdd o fewn y gymuned etholiadol yng Nghymru. Bydd y gofyniad i'r cadeirydd fod yn Swyddog

Canlyniadau flaenorol neu'n Swyddog Cofrestru Etholiadol flaenorol yn mynd cryn dipyn o ffordd tuag at sicrhau hyn.

Mae'r gofyniad bod o leiaf pedwar aelod arall sydd naill ai'n swyddogion etholiadau presennol neu flaenorol hefyd yn bwysig, a dylai helpu i sicrhau lefel o gysondeb ac arbenigedd o fewn aelodaeth craidd y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Ein barn ni yw y dylai cymaint o'r aelodaeth ag sy'n bosibl gael ei dynnu o swyddogion etholiadol presennol yn hytrach na rhai blaenorol, er mwyn helpu sicrhau dealltwriaeth a phrofiad byw o gynnal etholiadau yng Nghymru. O ran aelodaeth ehangach y tu hwnt i'r gofynion a nodir yn y gyfraith, mae aelodaeth bresennol y BCEC yn cynnwys y Cadeirydd, pum Swyddog Canlyniadau rhanbarthol arweiniol, a hyd at bedwar cynrychiolydd o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymru. Er ei fod yn y pen draw yn fater i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd, mae'r strwythur aelodaeth hwn wedi gweithio'n dda i'r BCEC.

Gwahoddir nifer o randdeiliaid hefyd i fynychu'r BCEC mewn rôl gynghori, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU. Mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda hyd yma, gan ganiatáu i ystod o randdeiliaid fod yn rhan o drafodaethau, a byddem yn argymhell bod y sefydliadau hyn yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol mewn rôl gynghori. Byddai'r adran newydd 20(H)(4) yn caniatáu i'r rhai nad ydynt yn aelodau fynychu cyfarfodydd yn y modd hwn.

Cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Byddai adrannau newydd 20B a 20C Deddf 2013, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, yn caniatáu i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion cofrestru Etholiadol am eu dyletswyddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddai adran newydd 20D yn gofyn bod y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn rhoi cyfarwyddiadau o'r natur hon.

Byddai'r darpariaethau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb wrth gynnal etholiadau datganoledig. Byddai hyn yn dod â Chymru yn unol â'r sefyllfa bresennol yn yr Alban, lle mae pŵer y Bwrdd Rheoli Etholiadol i roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi helpu i sicrhau lefel o gysondeb – er enghraifft, yn y dyddiadau anfon ar gyfer pleidleisiau post a chardiau pleidleisio a lliw papurau pleidleisio. Mae'r gofyniad i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ymgynghori â ni cyn rhoi cyfarwyddyd i Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd yn gyson â'r model presennol yn yr Alban, lle mae wedi gweithio'n dda ac wedi helpu i sicrhau nad yw unrhyw gyfarwyddiadau yn anghyson â'n canllawiau neu ein fframwaith safonau perfformiad presennol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Pennod 2: Cofrestru etholiadol heb geisiadau

Yr angen i foderneiddio cofrestru etholiadol

Mae yna angen brys i ddiwygio cofrestru etholiadol yn y DU. Mae ein [hymchwil diweddaraf](#) ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol mis Rhagfyr 2022 yn awgrymu y gallai fod 400,000 o bobl yng Nghymru sydd naill ai heb eu cofrestru'n gywir neu sydd ag anghysondebau yn eu cofnodion cofrestr llywodraeth leol. Rydym wedi canfod yn gyson bod rhai grwpiau penodol o bobl yn sylweddol yn llai tebygol o fod wedi'u

cofrestru i bleidleisio yn gywir, yn enwedig pobl ifanc, pobl sy'n rhentu'n breifat a'r rhai sydd wedi newid eu cyfeiriad yn ddiweddar.

Nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu y bydd y sefyllfa hon yn gwella'n sylweddol heb newidiadau mawr i'r system cofrestru etholiadol bresennol, ac rydym yn parhau i argymhell bod llywodraethau ar draws y DU yn archwilio diwygiadau dichonadwy yn y maes hwn mewn o fanylder. Fel rhan o'n hadroddiad diweddar ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol, gwnaethom amlygu sawl [astudiaeth achos](#) yn dangos sut y gellid moderneiddio cofrestru etholiadol, yn amrywio o gofrestru awtomatig i fathau o gofrestru integredig neu gofrestru â chymorth lle byddai angen i bleidleiswyr ddarparu rhywfaint o wybodaeth eu hunain o hyd. Gwnaethom hefyd gyfres o argymhellion, gan gynnwys:

- Dylai llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU basio deddfwriaeth i greu pyrth cyfreithiol clir i adrannau'r llywodraeth a chyrff y sector cyhoeddus rannu data ar unigolion a allai fod yn gymwys gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
- Dylid cael dull cyson rhwng llywodraethau, i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu datblygu a'u darparu mewn ffordd sy'n ei gwneud mor syml â phosibl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a sefydliadau ffynonellau data.
- Dylai llywodraeth y DU ddatblygu'r gwasanaeth digidol presennol ar gyfer Cofrestru Etholiadol Unigol i gefnogi rhannu data yn ddiogel ac yn effeithlon rhwng sefydliadau ffynonellau data a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u systemau meddalwedd rheoli etholiadol.

Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais

Byddai Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn cyflwyno gofyniad newydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru unigolion ar y gofrestr llywodraeth leol yn awtomatig y byddant yn fodlon bod ganddynt hawl i fod yn gofrestredig. Byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon hysbysiad cofrestru at bob etholwr cymwys, a fyddai wedyn yn cael 45 diwrnod i ymateb os oeddent yn gymwys i gofrestru'n ddienw neu os nad oeddent yn dymuno cael eu cofrestru'n awtomatig. Ar ddiwedd y cyfnod o 45 diwrnod byddai'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eu hychwanegu i'r gofrestr.

Mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn gyffredin ledled y byd, a gallai helpu i wella lefelau cyflawnrwydd – yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru Mae ymchwil gymharol rhyngwladol mwy diweddar wedi dangos bod cofrestru awtomatig hefyd yn gallu cael effaith bositif ar gywirdeb. Fodd bynnag, mae yna hefyd ystod o ystyriaethau ar gyfer llywodraeth Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â'r darpariaethau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y setiau data, neu gyfuniad o setiau data, a fyddai ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol at ddibenion cofrestru etholwyr heb gais, a ph'un a fyddai'r rhain yn darparu digon o wybodaeth i ganiatáu Swyddog Cofrestru Etholiadol i gofrestru person. Bydd angen i unrhyw ddata a ddefnyddir fel y sail am gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fod yn ddibynadwy, yn gyfredol, ac yn ddigon cyflawn i ddilysu cymhwystra person i fod yn gofrestredig.
- Yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud y newidiadau hyn ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol heb newidiadau cyfatebol i'r gofrestr seneddol, yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu â phleidleiswyr a sicrhau eu bod yn deall pa etholiadau y maent wedi'u cofrestru i bleidleisio ynddynt.
- Gwybod pryd mae rhywun eisoes ar y gofrestr.

- Y seilwaith technegol sy'n ofynnol i gefnogi'r diwygiadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddylunio a pheilotu modelau cofrestru awtomatig, gyda gwerthusiad annibynnol o unrhyw gynlluniau peilot a gynhelir gan y Comisiwn Etholiadol, cyn cychwyn ar y darpariaethau hyn. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw system yn ymarferol a bod gweinyddwyr etholiadol yn gallu ei chyflawni'n realistig gan weinyddwyr etholiadol cyn ei bod yn cael ei chyflwyno'n fwy eang. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r gymuned etholiadol ehangach i gefnogi'r maes diwygio hwn.

Cyfathrebu gyda phleidleiswyr

Wrth i'r darpariaethau hyn gael eu symud ymlaen ac wrth i waith ddechrau ar ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer cofrestru awtomatig gydag awdurdodau lleol, bydd angen ystyried yn ofalus sut bydd y polisi hwn yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd gan Lywodraeth Cymru.

Er enghraifft, mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Bil yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr llywodraeth leol: "*Golyga hyn na fydd rhaid i ddinasyddion wneud cais i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd nac etholiadau lleol.*" Er efallai mai dyma'r bwriad hirdymor y tu ôl i'r darpariaethau hyn, nid yw'n glir eto sut y byddai unrhyw system yn gweithio'n ymarferol, ac mae'n debygol y bydd yna bobl na fyddant yn gallu cael eu cofrestru'n awtomatig o dan y ddyletswydd newydd oherwydd nad oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddigon o ddata i fod yn fodlon bod gan y person hawl i fod yn gofrestredig. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r cyhoedd wrth i'r darpariaethau hyn gael eu symud ymlaen.

Mae yna risg ar wahân efallai na fydd pleidleiswyr sy'n cael hysbysiad cofrestru o dan y darpariaethau hyn yn deall y byddai dal angen iddynt fynd drwy'r broses gwneud cais am Gofrestriad Etholiadol Unigol er mwyn bod yn gofrestredig i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Bydd angen nodi hyn yn glir ar yr hysbysiad cofrestru a anfonwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Etholwyr di-enw

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus a mynd i'r afael â'r risg y bydd rhywun sy'n gymwys i gofrestru'n ddienw yn colli neu ddim yn derbyn yr hysbysiad gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mae eu henw yn cael ei ychwanegu i'r gofrestr ar ôl y 45 diwrnod.

Bydd angen i'r hysbysiad cofrestru gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol nodi'n glir ac yn amlwg pryd y bydd cyfnod o 45 diwrnod yn dod i ben er mwyn caniatáu i bobl gymryd camau amserol, er enghraifft i wneud cais am gofnod dienw neu i hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol nad ydynt yn dymuno bod yn gofrestredig.

Dileu'r gofrestr agored

Rydym wedi [argymhell yn flaenorol](#) na ddylid gwneud y gofrestr agored mwyach ac ni ddylai fod ar gael i'w phrynu. Yn hytrach, dylai dim ond cael ei defnyddio at ddibenion etholiadol ac ystod gyfyngedig o ddibenion diogelwch statudol ac atal troseddau.

Wrth i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'i chynigion i ddileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru, bydd angen iddynt ystyried yn ofalus sut y gallant

sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y bydd y gofrestr agored yn dal i fodoli ar gyfer y gofrestr seneddol ac y byddai dal angen iddynt gymryd camau er mwyn optio allan ohoni.

Pennod 3: Cynlluniau peilot a diwygio etholiadau yng Nghymru

Cynlluniau peilot yng Nghymru

Mae Pennod 3 o'r Bil yn cyflwyno pwerau arwyddocaol newydd i ganiatáu ar gyfer peilota prosesau etholiadol arloesol mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru, gan ehangu ar y darpariaethau presennol o amgylch cynlluniau peilot yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Bydd modd nawr i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnig cynlluniau peilot, a gallant ymwneud ag ystod ehangach o faterion etholiadol nag o dan Ddeddf 2000. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru symud ymlaen â chynlluniau i beilota cofrestriad awtomatig etholwyr llywodraeth leol, er enghraifft, cyn cyflwyno unrhyw newidiadau yn fwy eang.

Dylai unrhyw gynlluniau peilot sy'n cael eu symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru gael eu dylunio'n ofalus, gydag amcanion clir a realistig, i sicrhau y gallant ddarparu tystiolaeth gref i gefnogi penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Gwerthuso rheoliadau cynllun peilot

Mae Cymal 18 yn rhoi dyletswydd benodol ar y Comisiwn Etholiadol i baratoi adroddiad ar weithrediad rheoliadau cynlluniau peilot ac i anfon hwn at Weinidogion Cymru a Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol perthnasol. Mae Cymal 6(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau cynlluniau peilot, nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i ni anfon ein hadroddiad. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â ni cyn nodi'r dyddiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd i ystyriaeth yr amser y bydd ei angen i'r data perthnasol gael ei gasglu, ei adrodd i ni a'i ddadansoddi cyn i ni gyhoeddi ein hadroddiad.

Pŵer Gweinidogion Cymru i orfodi cynlluniau peilot

Er y byddai'n fuddiol i gynlluniau peilot etholiadol yn y dyfodol gynnwys ystod o awdurdodau lleol o ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig ac o wahanol feintiau, bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried yr effaith andwyol y gallai cyfarwyddo awdurdod lleol i gynnal cynllun peilot heb eu caniatâd ei chael – er enghraifft, os oedd bylchau capasiti sylweddol yn nhîm gwasanaethau etholiadol awdurdod lleol neu os oedd Swyddog Canlyniadau newydd neu gymharol ddibrofiad yn y swydd.

Gallai cynllunio a chyfathrebu cynnar ag awdurdodau lleol am gynlluniau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sicrhau y byddant yn cael digon o adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau peilot, helpu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt a lleihau'r tebygolrwydd y byddai angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn.

Pennod 4: Hygyrchedd ac amrywiaeth – etholiadau yng Nghymru

Cymorth i bleidleiswyr anabl

Dylai pawb allu cofrestru a bwrw eu pleidlais heb wynebu rhwystrau. Er bod gwelliannau sylweddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud o hyd i wella'r profiad pleidleisio ar gyfer pobl anabl. Yn yr etholiadau lleol yn 2022, gwnaeth [ein hymchwil](#) ganfod fod bron pob pleidleisiwr (97%) wedi ffeindio'r papur pleidleisio'n

hawdd i'w lenwi, a bod tri ym mhob pedwar (74%) wedi'i ffeindio'n hawdd, ond roedd y ffigur hwn yn is ymhlith pleidleiswyr anabl neu'r rheiny sydd â phroblem iechyd (67%).

Newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022

Ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl yng Nghymru, disodlodd y Ddeddf Etholiadau yr angen penodol i ddarparu dyfais pleidleisio gyffyrddadwy mewn gorsafoedd pleidleisio gyda dyletswydd ehangach ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu cyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu i alluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol yn yr orsaf bleidleisio, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hyn. Roedd hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu canllawiau i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau ac i [ymgyngori ar y canllawiau hyn](#), ac i Swyddogion Canlyniadau ystyried y canllawiau hyn.

Dylai'r ddyletswydd newydd hon gynyddu hyblygrwydd o amgylch y mathau o gyfarpar a'r cymorth sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, yn ogystal â chyflymu'r broses o ddarparu cymorth ychwanegol pan nodir cyfleoedd neu fylchau – er enghraifft mewn ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg gynorthwyol. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ac enghreifftiau o arfer da i gefnogi Swyddogion Canlyniadau wrth iddynt fodloni eu dyletswyddau newydd, ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau partner i gyfathrebu'r newidiadau hyn i bleidleiswyr.

Darpariaethau cyfatebol ar gyfer etholiadau datganoledig

Mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i alinio'r rheolau ar gyfer etholiadau datganoledig yn y maes hwn gyda'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Etholiadau. Bydd cyflawni cysondeb yn y rheolau rhwng etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig yn y maes hwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall y cymorth y gallant ei ddisgwyl wrth bleidleisio, ac yn llai cymhleth i weinyddwyr etholiadol.

Bydd y Bil ei hun yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl yn etholiadau Senedd Cymru ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Er mwyn hwyluso hyn, bydd hefyd yn ymestyn ein dyletswyddau adrodd am etholiad swyddogol i gynnwys etholiadau llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru. Rydym eisoes yn adrodd ar etholiadau llywodraeth leol fel mater o drefn, ond bydd y darpariaethau hyn yn ffurfioli hyn.

Bydd y ddyletswydd ehangach ar Swyddogion Canlyniadau i gefnogi pleidleiswyr anabl, yn ogystal â'r gofyniad i'r Comisiwn anfon canllawiau i gynorthwyo Swyddogion canlyniadau i fodloni'r ddyletswydd hon, yn cael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r memorandwm esboniadol yn nodi a fyddai angen i'r Comisiwn ymgynghori ar y canllawiau hyn. Gan ein bod eisoes wedi ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned etholiadol a sefydliadau anabledd yng Nghymru, ar y canllawiau a fydd yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ein barn yw y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru ystyried y canllawiau hyn ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu cymorth i bleidleiswyr.

Nodwn, fel rhan o'r Asesiad o Effaith Rheoliadol ar gyfer y Bil, fod Llywodraeth Cymru yn nodi y byddant yn darparu cyllid i gefnogi Swyddogion Canlyniadau wrth iddynt weithredu'r newid hwn, ac y bydd amcangyfrif o gostau'n cael ei gynhyrchu fel rhan o ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd cyllid priodol yn hanfodol i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu darparu'r cyfarpar a'r cymorth gofynnol yn ymarferol.

Platfform gwybodaeth etholiadau yng Nghymru

Yn ein hymateb i'r Papur Gwyn ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, gwnaethom amlygu y byddai angen datblygu unrhyw blatfform gwybodaeth ar-lein i bleidleiswyr yng Nghymru mewn ffordd sy'n ategu yn hytrach na dyblygu ein dyletswyddau statudol presennol o amgylch gwybodaeth i bleidleiswyr. Dyma ein barn o hyd, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau nad yw unrhyw blatfform sy'n cael ei ddatblygu o dan y darpariaethau hyn yn torri ar draws nac yn dyblygu'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud i ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr.

Er bod y darpariaethau a nodir yng nghymal 27 yn eithaf eang ar y cyfan, gyda llawer yn cael ei adael i reoliadau yn y dyfodol gan Weinidogion Cymru, mae cymal 27(4)(b) yn nodi cyhoeddi datganiadau gan ymgeiswyr fel swyddogaeth bosibl i'w chyflawni gan y platfform wybodaeth. Mae hyn yn gyson â chynigion a osodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ym Mhapurau Gwyn 2022 a 2017.

Gallai cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr ar-lein helpu i gynyddu amlygrwydd ymgeiswyr ar gyfer rhai pleidleiswyr. Yn yr etholiadau lleol yng Nghymru yn 2022, gwnaeth [ein hymchwil](#) ganfod fod dros chwarter o bobl (28%) wedi'i ffeindio'n eithaf anodd neu'n anodd iawn cael gwybodaeth am ymgeiswyr. Dywedodd 45% o bleidleiswyr bod ganddynt ddigon o wybodaeth ynghylch ymgeiswyr i wneud penderfyniad gwybodus wrth bleidleisio.

Bydd nifer o faterion ymarferol i'w hystyried, yn enwedig o ystyried y nifer sylweddol o ddatganiadau ymgeiswyr y byddai angen eu cynnal cyn etholiadau prif gyngor cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y logisteg sy'n gysylltiedig â phrosesu cannoedd o ddatganiadau ymgeiswyr mewn ffrâm amser cymharol fyr, yn ogystal â gwirio geirwiredd a chynnwys (e.e. iaith dramgwyddus) unrhyw ddatganiadau. Fel y trafodwyd eisoes fel rhan o ddatblygiad y Rheolau drafft ar gyfer etholiadau lleol 2021, nid yw hon yn rôl y dylai Swyddogion Canlyniadau ei chyflawni oherwydd y beichiau gweinyddol sylweddol. Rydym wedi awgrymu'n flaenorol y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd yn ymgeisydd amlwg i gynnal platfform gwybodaeth etholiadau yng Nghymru a rheoli'r ddarpariaeth o ddatganiadau ymgeiswyr ar-lein.
- Sicrhau hygyrchedd y platfform gwybodaeth etholiadau a bod yr holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog ac mewn ystod o fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiynau papur os oes angen.
- Unrhyw oblygiadau dichonadwy o ran tegwch o beidio â chael datganiadau ymgeiswyr ar gael ar-lein gan yr holl ymgeiswyr mewn etholiad penodol.

Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig

Dylai'r penderfyniad i sefydlu Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig yn barhaol, yn dilyn peilota'r gronfa yn 2021 a 2022, helpu i wella hygyrchedd sefyll etholiad yng Nghymru.

Wrth i Lywodraeth Cymru symud ymlaen â'r darpariaethau hyn cyn yr etholiadau datganoledig nesaf sydd wedi'u trefnu ar gyfer 2026 a 2027, dylai ystyried sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r gronfa ymhlith ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol posibl. Yn ein harolwg o ymgeiswyr yn dilyn etholiadau lleol 2022, roedd llai na thraean o'r ymatebwyr (29%) yn ymwybodol bod Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig ar waith. Yn ein hymateb i Bapur Gwyn y llynedd, gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gronfa cyn etholiadau 2026 a 2027, ac roeddem yn

falch o weld bod adroddiad [‘Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol’](#) diweddar y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad tebyg.

Byddai'r Bil hefyd yn caniatáu ar gyfer gwasanaethau neu gymorth ariannol i gael eu rhoi i gefnogi ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol eraill, drwy ddyletswydd drosfwaol newydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth o fewn y Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru.

Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa newidiadau, os o gwbl, y gallai fod eu hangen i reolau gwariant perthnasol er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw wasanaethau neu gymorth ariannol a ddarperir o dan y darpariaethau ehangach hyn yn cyfrif yn erbyn terfynau gwariant ymgeisydd. Fel y mae'r memorandwm esboniadol yn ei nodi, mae newidiadau tebyg eisoes wedi eu gwneud ar gyfer costau yn ymwneud ag anabledd ymgeisydd i sicrhau nad yw cyllid a ddarperir trwy'r Gronfa Mynediad at Swydd Etholedig yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgeisydd. Bydd angen ystyried hefyd sut y gallai unrhyw wasanaethau neu gymorth ariannol a ddarperir o dan y darpariaethau hyn ryngweithio â rheolaethau presennol ar roddion i ymgeiswyr

Pennod 5: Cyllid ymgyrchu

Cyfreithiau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig

Bydd y darpariaethau hyn yn dod â nifer o gyfreithiau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig yn unol â'r newidiadau cyfatebol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022. Bydd hyn yn cynnwys cyfreithiau yn ymwneud â gwariant tybiannol, ymgyrchwyr trydydd parti a phwy sydd wedi'u hawdurdodi i wneud taliadau ar ran ymgyrch.

Dylai cynnal cysondeb ar draws gwahanol fathau o etholiadau fel hyn ei gwneud hi'n haws i ymgyrchwyr gydymffurfio â'r gyfraith ar draws etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig. Fel gyda'r newidiadau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl sydd wedi'u cyflwyno gan y Ddeddf Etholiadau, byddwn yn parhau i ddarparu canllawiau i helpu'r gymuned reoledig i ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu cod ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fel rhan o'r newidiadau y bydd Cymal 38 y Bil yn ei wneud i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro effaith a goblygiadau'r newidiadau hyn, mewn etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig.

Rhan 2: Cyrff etholedig a'u haelodau

Pennod 3: Anghymhwysiad a dylanwad gormodol

Dylanwad gormodol

Yn ein hymateb i Bapur Gwyn y llynedd ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, roeddem yn gefnogol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiweddarau'r diffiniad o'r drosedd o ddylanwad gormod yn unol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022.

Bydd egluro'r drosedd o ddylanwad gormodol fel hyn yn rhoi diogelwch mwy ystyrion i bleidleiswyr yn erbyn ecsploetiaeth ac yn gwneud yn glir beth sy'n cael ei ystyried yn

ymddygiad derbyniol a beth sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol. Bydd hefyd yn ei gwneud yn symlach i'r heddlu weithredu pan fydd honiadau o ddylanwad gormodol yn cael eu gwneud.

Byddwn yn diweddarau ein canllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a gorsafoedd pleidleisio i nodi beth a ganiateir a beth na chaniateir mewn gorsafoedd pleidleisio. Byddwn hefyd yn diweddarau ein [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr](#) ar yr hyn y dylent ei ystyried wrth ymgyrchu y tu allan i orsafoedd pleidleisio, a byddwn yn parhau i gynnal [ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd](#) fel bod pleidleiswyr yn deall sut i amddiffyn eu pleidlais rhag dylanwad gormodol.

Fel y mae'r memorandwm esboniadol yn ei nodi, bydd y darpariaethau o fewn y Bil ei hun dim ond yn berthnasol i'r diffiniad o'r drosedd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r diffiniad ar gyfer etholiadau Senedd Cymru wedi'i nodi'n bresennol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, a nodwn gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud newid cyfatebol ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru pan fydd yn ail-wneud y Gorchymyn Ymddygiad cyn 2026.